

I'W RYDDHAU AR UNWAITH

Llangollen 2020 yn cyhoeddi première y DU o waith arbennig gyda'r Soprano o Gymru Elin Manahan Thomas a pherfformiad 'Yn Arbennig i Langollen' gan Only Men Aloud

Yr wythnos hon mae **Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen** yn datgelu mwy ar ei rhaglen ar gyfer 2020 (7-12 Gorffennaf 2020) fydd yn cynnwys y perfformiad cyntaf yn y DU o ***Magnificat*** gan **Bobbi Fischer** gyda'r unawdydd **Elin Manahan Thomas** a pherfformiad 'Yn Arbennig i Langollen' gan **Only Men Aloud**.

Dywedodd Cyfarwyddwr Artistig yr Eisteddfod Ryngwladol, Dr Edward-Rhys Harry: *"Mae'n dipyn o bluen yn ein het i gael perfformiad cyntaf y DU o Magnificat gan Bobbi Fischer yn Llangollen 2020 ynghyd â gallu croesawu'r eithriadol Elin Manahan Thomas yn ôl i'r wyl. Mae hefyd wedi bod yn bleser gweithio'n agos gydag Only Men Aloud i greu repertoire arbennig yn seiliedig ar ein cenhadaeth sylfaenol o heddwch a chytgord ac mae'n argoeli y bydd yn berfformiad hyfryd ac unigryw gan y côr poblogaidd hwn."*

Mae **Asio** (dydd Mercher 8 Gorffennaf) yn gweld elfennau cerddorol eclecticig o wahanol ddiwylliannau yn eistedd ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd rhan gyntaf y noson yn cyflwyno'r perfformiad cyntaf yn y DU o ***Magnificat***, sef gwaith y cyfansoddwr **Bobbi Fischer** o'r Almaen, lle mae'r gwaith corawl traddodiadol hwn wedi'i asio â rhythm a harmonïau America Ladin gyda Samba, Rhumba, Bossa Nova a Cha Cha. Yn y gosodiad hwn o emyn mawl efengyl Luc, **Elin Manahan Thomas**, fydd y soprano unigol sy'n canu fel llais Mair. Disgrifiwyd Elin Manahan Thomas fel un o soprano mwyaf eithriadol ei chenhedlaeth, a rhyddhaodd ei halbwm cyntaf *Eternal Light* yn 2017 ac ers hynny mae wedi perfformio mewn llawer o wyliau a lleoliadau mwyaf mawreddog y byd ac fe'i gwahoddwyd i berfformio yn y Bridas Frenhinol ym Mai 2018. Y tro diwethaf i Elin ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Ryngwladol oedd yn 2017 i berfformio yng nghyngerdd cofiadwy Christopher Tin, *Calling All Nations*.

Bydd ail ran *Asio* yn cynnwys y **Manchester Collective** gyda'u sioe **Sirocco**, sydd wedi cael canmoliaeth uchel gan y beirniaid, lle mae naw chwaraewr yn perfformio cyfuniad trydanol o gerddoriaeth gan gyfansoddwyr clasurol fel Haydn a Mozart a cherddoriaeth draddodiadol Affrica.

Y diwrnod canlynol, ar nos Iau 9 Gorffennaf, cynhelir y **Cyngerdd Heddwch** fydd yn cynnwys perfformiad unigryw 'Yn Arbennig i Langollen' gan y Côr Meibion o Gymru **Only Men Aloud**. Mae Only Men Aloud wedi dod yn adnabyddus am eu lleisiau cryf a'u repertoire amrywiol ac eclecticig. Maent wedi ennill *Last Choir Standing* ar BBC One, Gwobr Clasurol y Brits am Albwm Orau'r Flwyddyn, wedi perfformio ddwywaith yn sioe'r Royal Variety Performance, ac wedi canu yn Seremoni Agoriadol Gemau Olympaidd Llundain 2012 ar yr union foment y cafodd y Fflam Olympaidd ei chynnau. Ar gyfer *Cyngerdd Heddwch* byddant yn perfformio rhaglen arbennig o ganeuon o amgylch thema heddwch.

Bydd y cyngerdd ysbrydoledig a bywiog hwn hefyd yn cynnwys **Gorymdaith y Cenedloedd** a gyflwynir gan Lywydd yr Eisteddfod Ryngwladol, **Terry Waite CBE**, enillydd Offerynnwr Ifanc 2019 **George Todica (pianydd)**, y **Neges Heddwch** flynyddol a gaiff ei pherfformio gan blant ysgol lleol, **Gwobr Heddwch y Rotari** a pherfformiadau gan gyfranogwyr rhyngwladol.

Mae **Asio** a **Cyngerdd Heddwch** yn rhan o gyfres cyngherddau nos yr Eisteddfod, sydd eleni hefyd yn cynnwys **Yn Ôl Mewn Harmoni** gydag Aled Jones a Russell Watson, **BK25** gyda **Beverley Knight**, a chyngerdd cystadleuaeth Côr y Byd sy'n ddiweddglo cyffrous i'r wyl. Daw'r wythnos i ben ddydd Sul gyda gŵyl gerddoriaeth undydd **Llanfest** gyda'r ddau brif artist **James Morrison** a **Will Young**.

Mae tocynnau ar gyfer **Asio** a **Cyngerdd Heddwch** ar gael yn awr ar-lein o Llangollen.net neu o Swyddfa Docynnau Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ar 01978 862 0001

-DIWEDD-

Am fwy o wybodaeth, delweddau ac i drefnu cyfweiliadau, cysylltwch â Pippa Lea,
Cyfarwyddwr Marchnata ar 01978 862 000 neu pippa.lea@llangollen.net

Dropbox Delweddau i'r Wasg ar gael [yma](#)

NODYN I OLYGYDDION

I gael y newyddion diweddaraf am yr Eisteddfod dilynwch ni ar
Twitter @llangollen_Eist
Instagram @Llangollen_eisteddfod @Llan_Fest
Facebook @ Llangollen International Musical Eisteddfod
YouTube @ Llangollen International Musical Eisteddfod

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen

Mae Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn ŵyl flynyddol o gerddoriaeth, dawn a diwylliant, sy'n cynnwys cystadlaethau sy'n rhoi llwyfan i gorau a grwpiau dawn o bob rhan o'r byd. Sefydlwyd yr Eisteddfod Ryngwladol yn 1947, a'i nod yw hyrwyddo heddwch ac ewyllys da rhwng cenedloedd a thros y blynyddoedd cafodd ei henwebu am nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Heddwch Nobel. Am fwy o wybodaeth a thocynnau ewch i llangollen.net

Mae'r Eisteddfod Ryngwladol yn elusen a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae noddwyr yr ŵyl yn cynnwys Kronospan, Linguassist, Ymddiriedolaeth Celf a'r Gymuned Pendine, Westminster Stone, SG Estates a Wrexham Lager.

[Manchester Collective](#)

[Only Men Aloud](#)

[Elin Manahan Thomas](#)